

‘Catrin o eurlliw irllwyth’: Catrin o Ferain a’i Hynafiaid a’r Beirdd¹

Gruffydd Aled Williams

Diolch yn fawr i’r Cymmrodorion am y fraint o gael traddodi’r ddarlith hon, braint arbennig i mi gan fod y ddarlith yn coffáu’r disgleiriau o’r rhagflaenwyr yng nghadair Gymraeg Aberystwyth, Syr T. H. Parry-Williams, gŵr y mae’n hynod gymwys cofio amdano mewn Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn sgil y gamp arbennig a gyflawnodd yma gant namyn un o flynyddoedd yn ôl.

Fe hoffwn ddweud gair am bwnc y ddarlith i ddechrau. Efallai y bydd rhai ohonoch yn meddwl fod y ddarlith wedi ei chamamseru braidd, gan na chynhelir yr Eisteddfod yn Ninbych – calon bro Catrin o Ferain – am ddwy flynedd arall. Ond mae pobl o’r cenedlaeth i yn dal i feddwl yn nhermau’r hen sir Ddinbych; nid y sir Ddinbych ryfedd bresennol a gipiodd Y Rhyl a Phrestatyn oddi ar sir y Fflint ac Edeirnion oddi ar sir Feirionnydd ond a gollodd Wrecsam, ond yr hen sir Ddinbych fel yr oedd tan 1974. Yr oedd bro Catrin o Ferain a Wrecsam fel ei gilydd yn cydorwedd yn gyfforddus o fewn ffiniau’r sir honno. Mae un o’r cymeriadau yn nofel R. Cyril Hughes *Catrin o Ferain* yn cwyno, ‘Dembisheiar ydi popeth rŵan.’² Er gwell neu er gwaeth, mae cysgod y ‘Dembisheiar’ honno – yr hen sir Ddinbych – wedi dylanwadu ar fy newis o bwnc i draethu arno yn Wrecsam heddiw.

Yn ystod y pedwar cant ac ugain o flynyddoedd er pan fu farw nid aeth Catrin o Ferain yn angof. Fe ysgogodd ddychymyg llên gwerin a hynafiaethwyr, ac fe draethwyd pethau rhyfedd amdani, yn enwedig am ei hymwneud â’i gwŷr a’i chariadon honedig. Mewn un ffynhonnell fe aeth ei phedwar gŵr yn naw (‘she having Nine Husbands & a child by each’):³ ‘Mam Cymru’ yn wir! Mynnodd llên gwerin, yn gyfeiliornus, iddi addo priodi ail ŵr – Rhisiart Clwch – ar y ffordd i’r eglwys i gladdu ei gŵr cyntaf, ac ar y ffordd allan iddi addo ei llaw mewn priodas i ŵr arall eto – Morys Wyn – pe bai Clwch yn marw.⁴ Darluniodd stori arall hi hefyd fel cenawes lofruddiog yr honnwyd iddi dywallt plwm poeth i glustiau un o’i chariadon a chladdu’r truan ym mherllan Berain.⁵ Yn yr ugeinfed ganrif fe ddenodd Catrin sylw ysgolheigion gofalus fel Syr John Ballinger a Dr Enid Roberts a gywirodd gamsyniadau gwyllt o’r fath amdani a gosod seiliau mwy cadarn i’n gwybodaeth.⁶ Ac fe hudwyd llenorion hwythau gan gymeriad Catrin, gyda chyhoeddi triawd o nofelau rhagorol amdani gan R. Cyril Hughes yn cyfuno’n

1 Darlith Goffa Syr T.H. Parry-Williams a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a’r Fro, 1 Awst 2011. Y Cadeirydd oedd Dr Prys Morgan. Daw’r dyfyniad yn nheith y ddarlith o gywydd marwnad Robert Ifan i Gatrin (Rhydychen, llsg. Coleg Christ Church 184, ffol. 197v).

2 *Catrin o Ferain* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1975), t. 16.

3 Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llsg. LIGC 22753B, t. 40 (‘Tour or Journal through Wales in 1772’ gan Jinny Jenks o Enfield).

4 Thomas Pennant, *The Journey to Snowdon* (London: Henry Hughes, 1781), tt. 26-7 (ail gyfrol y *Tours in Wales* mewn argraffiadau diweddarach).

5 Cofnodwyd y stori gan John Ballinger, ‘Katheryn of Berain: a Study in North Wales Family History’, *Y Cymmrodor*, 40 (1929), tt. 1-42 (t. 33).

6 Ballinger, op. cit; Enid Roberts, ‘Priodasau Catrin o Ferain’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 20 (1971), tt. 31-56.

esmwyth ddychmyg byw a ffrwyth ymchwil gefndirol fanwl,⁷ a llunio hefyd nofel Saesneg – nas cyhoeddwyd – amdani gan Tom Lloyd-Roberts.⁸ Ac fe ddaliodd Catrin i ddenu sylw'r unfed ganrif ar hugain, gyda rhaglen hir amdani ar Radio Cymru y llynedd,⁹ ac erthygl amdani yn y *Western Mail* ym mis Mawrth eleni gyda phennawd yn holi'n ddramatig, 'Did this wealthy Welsh heiress poison three of her four husbands?'¹⁰ Ac ymhlith myrdd deunyddiau'r we fyd eang fe geir tudalen 'Facebook' wedi ei gysegru iddi a gwefan lle mae disgynnydd iddi'n dadlau'n ffyrnig ynghylch un o fanylion ei thras.¹¹

Cyn troi at graidd fy narlith – golwg ar ymwneud Catrin a'i hynafiaid â'r beirdd – yr wyf am oedi i ddechrau i'ch atgoffa, yn fras, o'i hanes. Fe'i ganed, mae'n debyg, yn 1534 neu 1535 yn ferch i Tudur ap Robert o Ferain, Llanefydd a'i wraig gyntaf, Siân ferch Syr Roland Filfel (neu de Veleville), cwnstabl castell Biwmares.¹² Ar ochr ei thad fe ddisgynnai o linach uchelwrol flaenllaw yn Is Aled, gan rannu rhai hynafiaid â theulu enwog Plas Lolyn. Mae'r bardd a'r achydd Lewys Dwnn yn olrhain ei hach yn ôl i Heilyn Frych a ystyriai'r beirdd i gyd yn un o'i hynafiaid pwysicaf, i Farchweithian, a roddodd ei enw i un o bymtheg llwyth Gwynedd, ac, yn fwy dychmygus, y tu hwnt i hynny i gyndad mytholegol cenedl y Cymry, Brutus o Gaer Droea.¹³ Y mae bardd ac achydd arall, Wiliam Cynwal o Ysbyty Ifan – ffigur canolog i bwnc fy narlith heddiw – yn mynd sawl cam ymhellach: mae ei fersiwn ef o ach Catrin o dad i dad yn gorffen 'ap Enoc ap seth ap adda ap dūw'.¹⁴ Mae'n anodd dadlau gyda hynny! Ond os yw ach Catrin o du ei thad – o ran y cenedlaethau diweddar, nid yr hynafiaid mytholegol a Beiblaidd – wedi ei derbyn, nid felly ei thras diweddar o du ei mam. Fe grwydraf a mynd ar ôl ysgyfarnog go ddifyr am ychydig. Mae'n amlwg fod si ar led unwaith fod taid Catrin o du ei mam, Syr Roland Filfel, a ddaeth drosodd o Lydaw, yn hogyn ifanc,

7 *Catrin o Ferain*, gw. 2n. uchod; *Dinas Ddihenydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976); *Castell Cyfaddawd* (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1984).

8 Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Tom Lloyd-Roberts Papers, GB 0210.

9 Darlledwyd ar Radio Cymru 19 Medi 2010.

10 Katharine Olson, 'Did this wealthy Welsh heiress poison three of her four husbands?', *Western Mail*, 26 Mawrth 2011, tt. 22-3 (cyfres 'History Month'). Er gwaethaf y pennawd, dylid nodi bod yr erthygl hon yn un dra safonol.

11 <<http://www.facebook.com/pages/Kathryn-of-Berain/112880992094287>>; <<http://www.happywarrior.org/genealogy/roland.htm>> [cyrchwyd 27 Mawrth 2011].

12 Mae'r dyddiad geni a nodir yn seiliedig ar yr hyn a ddywedir mewn marwnad Ladin iddi gan Owen Jones yn 1591, 'Vixit sex decies, si demas quattuor annos' (Rhydychen, llsgr. Christ Church 184, ffol. 176r; cf. Carleton Brown, *Poems by Sir John Salusbury and Robert Chester*, Bryn Mawr College Monographs, 14 (Bryn Mawr, PA: Bryn Mawr College, 1913), tt. xiv, 39). Anodd anwybyddu'r cyfeiriad hwn, ond dylid nodi bod Enid Roberts yn awgrymu dyddiad geni diweddarach, sef c. 1540, yn ei herthygl 'Siôn Salsbri, Lleweni', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 19 (1970), tt. 66-102 (tt. 71-2); cf. hefyd eadem, 'Katheryn of Berain [called Mam Cymru] (c. 1540-1591)', *Oxford Dictionary of National Biography* (Oxford: Oxford University Press, 2004), 30, 910-11.

13 Lewys Dwnn, *Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches*, gol. Syr Samuel Rush Meyrick, 2 gyfrol (Llandovery: Welsh MSS. Society, 1846), II, tt. 333-4.

14 Llsgr. Coleg Christ Church 184, ffol. 4v. (Codwyd y deunydd o'r llsgr. a ddyfynnir yn yr erthygl hon o'r copïau ffootostat ohoni yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llsgrau. LIGC 6495C a LIGC 6496C. Wrth gyfeirio at Christ Church 184 defnyddiwyd rhifiant presennol dalennau'r llsgr., sy'n wahanol i'r rhifiant gwreiddiol (sef rhifiant copïau LIGC). Safonwyd y dulliau'r llsgr. o ddyynodi *dd ac ll* (na ellir eu hatgynhyrchu mewn print) yn unol â'r orgraff ddiweddar.)

yn 1485 gyda Harri Tudur – Harri VII wedyn – yn fab anghyfreithlon i Harri. Meddai John Salusbury o Fachegraig, nai Catrin drwy briodas, mewn llythyr trwm ei awgrym yn 1637, 'and whose reputed sonne Velevell was I doupt not yow have heard'.¹⁵ Llai amwys oedd Thomas Pennant ac Angharad Llwyd a enwodd Harri'r seithfed yn benodol,¹⁶ ac fe dderbyniwyd mai ef oedd tad Filfel yn ddiweddarach gan Syr John Ballinger ac, i raddau, gan Enid Roberts.¹⁷ Y prif anghredadun yn hyn o beth oedd yr Athro S. B. Chrimes, Athro Hanes Coleg y Brifysgol Caerdydd yn ei ddydd, ac awdurdod ar Harri VII, a draethodd ar y pwnc mewn erthygl yn 1967,¹⁸ ac a ddilynwyd wedyn gan hanesydd arall o fri, yr Athro Ralph Griffiths yn y gyfrol *The Making of the Tudor Dynasty*.¹⁹ Yn 1991 fe dynnodd trydydd hanesydd, W. R. B. Robinson, sylw at gamsyniadau yng ngwaith yr Athro Chrimes, ond gan ddal i fod yn ochelgar ynghylch yr honiad mai Harri Tudur oedd tad Syr Roland.²⁰ Ond yn fwy diweddar mae un o ddisgynyddion Catrin, gŵr o'r enw Graham Milne (cynaelod o Gyngor Cymdeithas Achyddol yr Alban) wedi dadlau'n fanwl ar y we yn erbyn yr amheuwyr, gan feirniadu'n hallt 'the appalling standards of scholarship, the rudimentary errors of fact, the fundamental errors of logic, the assertions made without any evidence' yr honna iddo'u canfod yng ngwaith yr Athrawon Chrimes a Griffiths.²¹ Yn fwy cadarnhaol, mae Mr Milne yn cyfeirio – fel y gwnaeth eraill o'i flaen²² – at farwnad a ganodd bardd o Fôn, Dafydd Alaw, i Syr Roland Filfel pan fu farw yn 1535: meddai'r bardd am Syr Roland, 'A gwr o lin brenhinoedd | ac o waed Ieirll i gyd oedd,' gan sôn yr un pryd fel yr oedd 'hari wyth mewn hiraeth mawr' ar ei ôl.²³ Yn awr, fe ellir ychwanegu at y cyfeiriad barddol hwn gyfeiriadau eraill tebyg. Fe geir amryw mewn cerddi a ganwyd i Syr Siôn Salsbri o Leweni, mab Catrin o Ferain. Mae Owain Gwynedd yn dweud am Syr Roland, 'carwr hael i ceir yr hydd | car pavn mwyn ceirw pen mynydd';²⁴ yn syth ar ôl crybwyll Syr Roland, meddai Wiliam Cynwal am Siôn Salsbri, 'Dy lin o waed Brenhinoedd | ac o ryw Ieirll holl Loygr oedd';²⁵ ac meddai bardd o Fôn, Robert Ifan, ar ôl sôn fod Salsbri yn 'orwyr Sr Rolant euraid', 'dyna lin y brenhinoedd | bur at hen waed waed brytain oedd'.²⁶ Meddai bardd arall, Siôn Evans, am Siôn Salsbri, 'mae amlwg ryw pen

15 Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llewenni Letters, rhif 124 (llythyr at Syr Thomas Salusbury); gw. hefyd *Calendar of Salusbury Correspondence 1559-circa 1700*, gol. W. J. Smith (Cardiff: University of Wales Press, 1954), rhif 186.

16 *The Journey to Snowdon*, t. 244; Angharad Llwyd, *A History of the Island of Mona or Anglesey* (Ruthin: R. Jones, 1833), tt. 131-2.

17 Ballinger, tt. 1-2; *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts, dwy gyfrol (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1980), II, tt. 41-2.

18 'Sir Roland de Veleville', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 3 (1966-7), 287-9.

19 Ralph A. Griffiths a Roger S. Thomas, *The Making of the Tudor Dynasty* (Gloucester: Alan Sutton, 1985), tt. 108, 174-5.

20 W. R. B. Robinson, 'Sir Roland de Veleville and the Tudor Dynasty: a Reassessment', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 15 (1990-91), 351-67 (tt. 351-3).

21 <<http://www.happywarrior.org/genealogy/roland.htm>> [cyrchwyd 27 Mawrth 2011].

22 D. Cyril Jones, 'The Bulkeleyes of Beaumaris, 1440-1547', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (1961), 1-20 (t. 8); *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Roberts, II, t. 42.

23 Dyfynnir yma o destun llsgr.Christ Church 184, ffol. 208r.

24 Ibid., ffol. 264r.

25 Ibid., ffol. 222v.

26 Ibid., ffol. 75r.

mynydd | y mon i syr sion y sydd'.²⁷ Mae'n eglur fod cred gref fod Syr Roland yn fab i Harri Tudur ymhlith y beirdd, prif geidwaid achau'r boneddigion yn eu dydd. Ond ymddengys mai dyna hefyd gred awdurdod achyddol o gefndir gwahanol, sef Thomas Chaloner, gŵr o Ddinbych a ymsefydlodd yng Nghaer fel achydd a herodr ac a fu'n ddirprwy herodr ac efallai'n 'Ulster King of Arms' o dan y Coleg Arfau yn Llundain. Fe gofnodir ei farn ef mewn nodyn mewn llawysgrif yn y Llyfrgell Brydeinig (Harley 1971) a ysgrifennwyd gan Jacob Chaloner, ei fab, ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Barn Thomas Chaloner oedd bod dau dan amheuaeth o fod yn dad i Syr Roland, sef Dug Llydaw a Harri Tudur:

Sr Rowland villavile or delaville was the naturall sonne as is reported of the duke of brittaine but most authors are of opinion he was naturall sonne of hen[ry] E[arl] of Richmond whilst he was in britaine & was after H[enry] 7:²⁸

Yna ychwanegir manylyn blasus, sef nad oedd Syr Roland yn debyg i Ddug Llydaw o ran pryd a gwedd, ond ei fod yn ymdebygu i Harri VIII: 'the duke was litle slender & black: & Sr Rowland was tale [= 'tall'] very stronge & fair much like to Kinge H[enry] 8'.²⁹ Dyna ni ym myd difyr clects a sgandalau brenhinol (tybed ai ailadrodd si a glywsai yn Ninbych neu ym mhlatai Dyffryn Clwyd a wnâi Chaloner?). Yn niffyg profion DNA – datrysyrwyr dirgelion mawr ein dyddiau ni – pwy all ddweud i sicrwydd a oedd Syr Roland Filfel yn fab i Harri'r seithfed ac felly'n hanner brawd i Harri'r wythfed, a Chatrin o Ferain hithau'n hanner cyfyrdere i Elisabeth y Cyntaf? Ond yr wyf am awgrymu bod yr achos yn un gweddol gryf: mentrus efallai fyddai anwybyddu'r beirdd – na fyddent wedi beiddio mynegi barn a fyddai'n wrthun i dylwyth Catrin – ynghylch y mater hwn.

Fel aeres i dad o uchelwr cefnog – yr oedd stad Berain yn dair mil o aceri a'r tiroedd ym Môn a fu'n eiddo i Syr Roland Filfel yn ychwanegu bron fil o aceri eto³⁰ – yr oedd Catrin yn briodadwy iawn, yn un a ystyrir, mae'n amlwg, yn gymar addas i Siôn Salsbri, aer teulu pwysig Salsbriaid Lleweni, ger Dinbych, ar wastadedd bras Dyffryn Clwyd, ei gŵr cyntaf. Wedi cytundeb rhwng y ddau deulu ynghylch setliad tirol yr uniad, dechreuodd y ddau eu bywyd priodasol ym Merain cyn Nadolig 1558,³¹ er na fu Siôn Salsbri yn byw yno'n ddi-fwlch gan iddo dreulio cyfnod yn yr Inner Temple yn Llundain ac efallai yn y fyddin.³² Fe aned dau fab i Siôn a Chatrin, Tomas y mab hynaf yn 1561 ac ail fab, Siôn, rai blynyddoedd wedyn.³³ Baban oedd Siôn pan fu farw ei dad yn ddisymwth wedi salwch byr

27 Llsg. Christ Church 183, ffol. 127r (copi ffotostat yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru = llsg. LIGC 6494D). Fel llsg. Christ Church 184 mae Christ Church 183 hefyd yn cynnwys barddoniaeth a ganwyd i Salsbriaid Lleweni.

28 Llundain, Y Llyfrgell Brydeinig, llsg. Harley 1971, ffol. 22. Cofnodir uwchben y nodyn i'r wybodaeth ddeillio 'p[er] Tho Chaloner'.

29 Ibid.

30 Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 44.

31 Eadem, 'Siôn Salsbri, Lleweni', t. 77.

32 Ibid., tt. 89, 99-101.

33 Ibid., t. 102.

ddechrau haf 1566 gan adael Catrin yn weddw ifanc.³⁴ Fe briododd eto yn 1567, ag un o gefndir go wahanol i aer Lleweni, sef Rhisiart Clwch, mab i fenygwr o Ddinbych, a gŵr a wnaeth ei ffortiwn yn Antwerp – prif ganolfan masnach a thrafod arian y byd ar y pryd – lle bu'n gynrychiolydd i'r masnachwr a'r ariannydd Syr Thomas Gresham.³⁵ Yn ôl Thomas Pennant gymaint oedd cyfoeth Rhisiart Clwch fel i 'Efe a aeth yn Glough' fynd yn ddywediad am un wedi ymgyfoethogi;³⁶ fe gododd ddau dŷ ysblennydd yn ei hen gynefin, sef Bachegraig a Phlas Clwch, ac fe honnwyd iddo roi arian tuag at adeiladu'r 'Royal Exchange' yn Llundain, prosiect uchelgeisiol ei feistr, Thomas Gresham.³⁷ Yn ôl Thomas Pennant, Clwch oedd 'favorite husband' Catrin.³⁸ Beth bynnag am hynny, yn sgil priodi Clwch fe gafodd Catrin gyfle i brofi bywyd gwahanol iawn i'w hen fywyd ym Merain, ac efallai mai gwir yw awgrym Dr Enid Roberts mai awydd am antur a chael gweld y byd oedd un o'i chymhellion yn derbyn Clwch yn ŵr.³⁹ Os ie, fe gafodd ei dymuniad, gan fyw yn ninasoedd prysur Antwerp a Hamburg ac ymweld gyda'i gŵr â Sbaen a Denmarc. Fe aned dwy ferch, Anne a Mary, iddi o'r briodas hon, cyn marw Clwch yn Hamburg yn 1570. Wedi ysbaid yn weddw drachefn, a gwrthod o leiaf un cais am ei llaw,⁴⁰ fe ddaeth yn drydedd wraig i Morys Wyn, ysgwïer Gwydir, Llanrwrst rywdro cyn diwedd Ionawr 1573.⁴¹ Fe esgorodd y briodas hon ar uniad dwbl maes o law: wedi priodas ei fam fe wnaed cytundeb y byddai Tomas Salsbri, ei mab o'i phriodas gyntaf, yn priodi ei llyserch Margred, merch Morys Wyn o'i briodas gyntaf,⁴² cytundeb, mae'n ymddangos, nad oedd yn llwyr wrth fodd Tomas ond a weithredwyd maes o law.⁴³ Fe aned dau blentyn i Gatrin o'i phriodas â Morys Wyn,

- 34 Ibid.; hefyd 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 33. Wrth dystio yn Llys y Seren mewn achos yn ymwneud â helynt etholiad 1588 yn sir Ddinbych noda Siôn Salbri ei fod yn 24 ar y pryd, gw. J. E. Neale, 'Three Elizabethan Elections', *English Historical Review*, 46 (1931), 209-38 (t. 213, n.1). Dengys marwnadau'r beirdd i'w dad fod Siôn wedi ei eni cyn i'w dad farw (llsgr. Christ Church 184, ff. 152r, 157v, 159r). Anghywir yw 1567 a nodir fel dyddiad ei eni yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1953), t. 845, ac ni ellir derbyn ychwaith mai 14 oed ydoedd yn 1581 pan ymaelododd yng Ngoleg Iesu, Rhydychen (ibid.).
- 35 Arno gw. erthyglau cynhwysfawr Robin Gwyndaf Jones, 'Sir Richard Clough of Denbigh c. 1530-1570', Part 1, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 19 (1970), 24-65; Part 2, ibid., 20 (1971), 57-101; hefyd Ian Blanchard, 'Clough, Richard (d. 1570)', *Oxford Dictionary of National Biography*, 12, tt. 207-9; *Bywgraffiadur Cymreig*, t. 72.
- 36 Pennant, *Journey to Snowdon*, t. 23.
- 37 Thomas Fuller, *The History of the Worthies of England* (London: Thomas Williams, 1662), adran *The Principality of Wales* (wedi ei dudalennu ar wahân), t. 40; Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, 2 gyf. (London: Benjamin White, 1784), II, 25 (ni chynhwyswyd yr wybodaeth hon yn *The Journey to Snowdon*). Fel y noda Jones, 'Sir Richard Clough of Denbigh', Part 1, t. 63, ni ellir profi a gyfrannodd Clwch arian ai peidio.
- 38 Pennant, *Journey to Snowdon*, t. 27.
- 39 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 47.
- 40 Gan John Vaughan o'r Gelli Aur, sir Gaerfyrddin, ar ran ei fab, Walter Vaughan, gw. Ballinger, tt. 12-13; Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', tt. 51-2.
- 41 Ballinger, t. 13; Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 54.
- 42 Ballinger, tt. 13-14; Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 54.
- 43 Gw. Ballinger, t. 19, lle dyfynnir o lythyr gan Robert Dudley, Iarll Caer-lŷr, at Forys Wynn. Honnai Dudley iddo glywed am Tomas 'he hath the utterlie dissented' parthed y briodas arfaethedig. Cf. *Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers 1515-1690* (Aberystwyth, Cardiff and London: 1926), rhif 84.

sef mab o'r enw Edward a merch o'r enw Siân, cyn marw Morys yn 1580.⁴⁴ Fe briododd am y tro olaf yn 1583, gan ddod yn ail wraig i Edward Thelwal, aer Plas-y-Ward, Llanynys:⁴⁵ fel ei phriodas flaenorol, fe esgorodd y briodas hon hefyd ar uniad dwbl, gyda chytundeb y byddai Siân, merch Morys Wyn a Chatrin yn priodi Simon, mab Edward Thelwal o'i briodas gyntaf.⁴⁶ Thelwal, gellir tybio, oedd y dysgedicaf o wŷr Catrin: yn ôl Edward, y barwn Herbert o Cherbury, a anfonwyd ato gan ei rieni i ddysgu Cymraeg, medrai Roeg, Lladin, Ffrangeg, Eidaleg a Sbaeneg 'and all other Learning',⁴⁷ ac yr oedd hefyd yn hynafiaethydd galluog.⁴⁸

Cyn gorffen y crynodeb bras hwn o hanes Catrin rhaid sôn am arwyddocâd un flwyddyn yn ei hanes, sef 1586. Yn Chwefror ganed ei hwyres gyntaf, merch Tomas a Marged Salsbri; yn llai hapus dilynwyd hyn gan farwolaeth ei thad-ying-nghyfraith, Simwnt Thelwal yn Ebrill a marwolaeth ei mam-ying-nghyfraith, Margred Thelwal, yn Awst.⁴⁹ diau mai Plas-y-Ward fu ei phrif gartref hi a'i gŵr wedi hynny.⁵⁰ Ond daeth trychineb gwaeth i ran Catrin a'i theulu yr haf hwnnw. Yn fyfyrwr yn Rhydychen ac wedyn yn Llundain yr oedd ei mab hynaf Tomas Salsbri wedi troi mewn cylchoedd Catholig a dod yn gyfaill i wŷr o'r enw Anthony Babington. Daeth Babington i arwain cynllwyn Catholig i ladd y Frenhines Elisabeth a rhoi Mari brenhines yr Alban ar yr orsedd yn ei lle, gan hudo Tomas Salsbri ac eraill i'w ganlyn.⁵¹ Fe ddaeth ysbïwyr y Goron i wybod am hyn, ac ym

44 Ballinger, t. 24.

45 Anghywir yw Dwnn, II, t. 235, sy'n rhestru Jane ferch Simon Broughton fel ail wraig Thelwal, a John Edward Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Horncastle: Yr Awdur, 1914), t. 274, a'r *Bywgraffiadur Cymreig*, t. 876, sy'n rhestru Catrin fel ei drydedd wraig. Dengys marwnadau'r beirdd i Thelwal (m. 1610) (Llundain, llsgr. British Library Additional 14965, ffols 240-8) yn ddigamsyniol mai ail wraig i Thelwal oedd Catrin ac mai ei drydedd wraig (a'i goroesodd) oedd Jane Broughton.

46 Ballinger, tt. 26-7; Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', tt. 55-6.

47 *The Life of Edward, First Lord Herbert of Cherbury*, gol. J. M. Shuttleworth (London: Oxford University Press, 1976), tt. 14-15. Yr oedd Herbert yn naw oed ar y pryd, a chan iddo gael ei eni yn 1582 neu 1583 gall mai yn 1591, y flwyddyn y bu farw Catrin, neu yn 1592 y bu'n aros ym Mhlas-y-Ward.

48 Ar weithgarwch hynafiaethol Thelwal gw. *Vita Griffini Filii Conani: the Medieval Latin Life of Gruffydd ap Cynan*, gol. a chyf. Paul Russell (Cardiff: University of Wales Press, 2005), tt. 5-9, 17-29. Gall mai ef oedd yr Edward Thelwall a oedd yn berchen copi llsgr. o *Old Arcadia* Syr Philip Sidney, gw. H.R. Woudhuysen, *Sir Philip Sidney and the Circulation of Manuscripts 1558-1640* (Oxford: The Clarendon Press, 1996), tt. 318-20.

49 Ballinger, t. 27; mae marwnadau'r beirdd i Simwnt Thelwal (llsgr. British Library Additional 14965, ffols 234-8) yn ei farwnadu ef a'i wraig ynghyd a nodir ym marwnad Robert Ifan (ibid., ffol. 236v) mai yn Awst y bu Margred Thelwal.

50 Ballinger, t. 31.

51 Ar y cynllwyn yn gyffredinol gw. John Hungerford Pollen, *Mary Queen of Scots and the Babington Plot* (Edinburgh: Scottish History Society, 1922); Alan Gordon Smith, *The Babington Plot* (London: Macmillan, 1936), ac erthygl Penry Williams. 'Babington, Anthony (1561-1586)', *Oxford Dictionary of National Biography*, 3, tt. 76-9. Ceir cofnod gweddol gyfoes o'r hanes ym William Camden, *Annales the True and Royall History of the Famous Emperesse Elizabeth Queene of England France and Ireland*, cyf. gan Abraham Darcie (London: Benjamin Fisher, 1625), Booke 3, tt. 130-143 (cyhoeddwyd gyntaf yn Lladin yn 1615). Ar ymwneud Tomas Salsbri â'r cynllwyn gw. David Mathew, *The Celtic Peoples and Renaissance Europe* (London and New York: Sheed & Ward, 1933), tt. 64-72; hefyd erthygl Enid Roberts, 'Salisbury [Salesbury], Thomas (1561x44-1586)', *Oxford Dictionary of National Biography*, 48, tt. 717-18.

mis Awst 1586 fe arestiwyd y cynllwynwyr, gan gynnwys Tomas Salsbri a oedd wedi ffoi i sir Gaer. Nid oedd maddeuant i'w gael. Wedi treial byr ym mis Medi fe gaed y cynllwynwyr yn euog o deyrnfradwriaeth. Dienyddiwyd Babington a chwech arall ar 20 Medi; hyd yn oed mewn oes greulon bu diweddd erchyll y saith – 'They were no sooner hanged, but presently cut downe; their privy members cut off, their bowels ript vp, and quartered they yet alieue, and looking about them'⁵² – yn fodd i ennyn tosturi'r dorf, ac, efallai, y frenhines ei hunan. Yr oedd saith ar ôl i'w dienyddio drannoeth, yn eu plith Tomas Salsbri a'i gyfaill Edward Jones o Blas Cadwgan, Wrecsam. Yn eu hachos hwy gorchmynnodd y frenhines iddynt gael eu crogi nes oeddynt yn farw cyn cael eu diberfeddu⁵³ – trugaredd amodol megis – ond gwyddys hefyd i ben Tomas Salsbri gael ei dorri ac iddo gael ei arddangos yn gyhoeddus.⁵⁴ Ar y crocbren, er iddo edifarhau ei ran yn y cynllwyn ac annog Catholigion i beidio ag adfer eu crefydd drwy rym, fe ddatganodd Salsbri, 'I have lyved a catholique and so will I dye,'⁵⁵ datganiad – ynghyd ag ambell awgrym arall – sy'n codi cwestiwn ynghylch gwir ymlyniad crefyddol ei dylwyth. O ran y tylwyth hwnnw, anodd dychmygu maint y drychineb:⁵⁶ cywilydd teuluol mawr a chyhoeddus, bygwth eu holl statws a'u tiroedd (yr oedd perygl iddynt fynd yn fforffed i'r Goron), ac i Gatrin, mam Tomas – a gyfeiriodd yn gariadus ato mewn llythyr unwaith fel 'little Thome Salusbury'⁵⁷ – trywaniad cylllell i'w chalon, mae'n siŵr. Fe ddaeth comisiwn i Leweni i ystyried tynged y tiroedd yno ac ym Merain, ond drwy ddirgel ffyrdd fe'u harbedwyd i'r teulu.⁵⁸ mentrus fyddai honni bod cwlwm carennydd rhwng Catrin a'r Goron – cofier am Syr Roland Filfel – wedi chwarae rhyw ran yn hyn,⁵⁹ ond pwy a wŷyr? Yr oedd angen adfer safle a morâl y teulu ar fyrder, ac i'r perwyl hwnnw fe drefnwyd ar frys i aer newydd Lleweni, Siôn Salsbri, ail fab Catrin, briodi Ursula, merch anghyfreithlon Henry Stanley, Iarl ll Derby drennydd y Nadolig 1586.⁶⁰ Fe fu dathliadau ym Merain, yn cynnwys

52 Camden, t. 142.

53 Dywedir ibid. iddynt farw 'with lesse seueritie, by the Queenes commandement, who hated the first dayes cruelty after she heard it. For they hung till they were dead, and then were taken downe, bowelled and quartered.' Mae Smith, *The Babington Plot*, t. 242, yn cyfeirio at yr honiad ynghylch anesmwythyd y frenhines fel 'mean and cowardly official lie'. Yn ymhlyg yn ei sylwadau y mae awgrym mai ofni gwrthwynebiad cyhoeddus yn wyneb yr ymateb i greulonderau'r diwrnod cynt a wneid.

54 Mark Bland, 'As far from all Reuolt': Sir John Salusbury, Christ Church MS 184 and Ben Jonson's First Ode', *English Manuscript Studies 1100-1700*, 8 (2000), 43-78 (t. 75, n.40). Ffynhonnell yr wybodaeth yw llsgr. British Library Additional 48027, ffol. 268.

55 *The Manuscripts of Lord Kenyon* (London: Her Majesty's Stationery Office, 1894), t. 614; Roberts, 'Salisbury [Salesbury], Thomas (1561x44-1586)', t. 718.

56 Cf. sylwadau J.E. Neale, *The Elizabethan House of Commons* (London: Jonathan Cape, 1949) sy'n cyfeirio at 'the gloom cast on Llewenny' (t. 112) ac at 'the disgrace brought on Llewenny by the traitor-brother' (ibid., t. 118).

57 Ballinger, t. 18 (llythyr Catrin at John Wyn yn 1577). Cf. *Calendar of Wynn Papers*, rhif 83.

58 Ballinger, tt. 28-9, lle dyfynnir dogfen a baratowyd ar gyfer Syr John Wyn o Wydir ar ôl marwolaeth Syr Siôn Salsbri yn 1612.

59 Yn y ddogfen a ddyfynnir ibid. anfanwl yw'r honiad mai 'by some old estate to theires males of Llewenny' yr arbedwyd tiroedd y teulu. Yn y cyswllt hwn defnyddir *estate* mewn ystyr gyfreithiol, 'The interest which any one has in lands, tenements or other effects' (*OED*, s.v. *estate*, n., 11).

60 Ballinger, tt. 30-31;

masque, math o berfformiad dramatig ffasiynol gyda miwsig. Ond rhaid bod tynged ‘litle Thome Salusbury’ yn gwmwl dros y dathlu: fe soniai cerdd Saesneg a gyflwynwyd i Gatrin yn rhan o’r *masque* am ‘doulfull mynde’, trymder meddwl, y priodfab.⁶¹ Ychydig iawn a wyddom am flynyddoedd olaf Catrin. Fe gladdodd dri gŵr, ond tybed a oedd trychineb 1586 yn ergyd waeth a’r graith yn barhaol? Bum mlynedd yn ddiweddarach, ar 27 Awst 1591, fe fu farw hithau ym Mhlas-y-Ward, yn hanner cant a chwech blwydd oed yn ôl un o’i marwnadwyr.⁶² Mewn oes pan oedd bywyd yn bur fregus yr oedd hyn yn oedran gweddol; eto, mae’n arwyddocaol efallai mai dymuno ‘tir nef i gatrin ifangk’ a wnaeth bardd arall, Siôn Tudur, ar ddiwedd ei farwnad iddi.⁶³

Wedi’r rhagymadrodd braidd yn hir, ond angenrheidiol, yna, yr wyf am ymafflyd ym mhwnic penodol fy narlith, sef ymwneud Catrin a’i hynafiaid â’r beirdd. Mae un ffynhonnell yn ganolog i’r pwnc, sef llawysgrif a gedwir yn llyfrgell Coleg Eglwys Crist neu Christ Church yn Rhydychen, llawysgrif Christ Church 184.⁶⁴ Ar ddechrau’r llawysgrif fe geir rhagymadrodd yn llaw’r bardd Wiliam Cynwal o Ysbyty Ifan: meddai, ‘y llyfr hwnn a ddechrevais i wiliam kynwal prydydd dynnv i arvav ac yscrivenv i iachav ai gowyddav pann oedd oed krist.1570. i mestres katrin aeres tudr ap Robart vychan o lann vfvd.’⁶⁵ Aiff rhagddo i ddweud bod y llyfr yn cynnwys achau ac arfau ‘mestres katrin ai henaviaid’ ynghyd â chywyddau moliant a marwnadau tad a thaid a hynafiaid Catrin a chywyddau i Gatrin a’i gwŷr priod. Mae’n amlwg fod Catrin ar ôl dychwelyd i Ferain ar ôl marwolaeth ei hail ŵr Rhisiart Clwch yn 1570 wedi comisiynu Cynwal i lunio ‘llyfr llys’, a defnyddio term Mr Daniel Huws am llawysgrif o’r fath,⁶⁶ casgliad o gerddi’r beirdd dros y cenedlaethau i aelodau ei theulu, ynghyd â’u hachau ag arfau, arwydd go bendant, wrth gwrs, o’i balchder teuluol a hefyd efallai o’i diddordeb yn ei hetifeddiaeth ddiwylliannol. Ar ddechrau’r llyfr mae Cynwal – ‘prydydd ac arwyddfardd’ yn ôl Edmwnd Prys yn rhinwedd ei arbenigedd mewn achyddiaeth a herodraeth⁶⁷ – yn olrhain achau Catrin am ryw hanner can tudalen, gan ddarlunio’r cyfan gyda lluniau o arfbeisiau mewn lliw. Ond y farddoniaeth yn y llawysgrif yw fy niddordeb i yma, ac yn benodol y farddoniaeth Gymraeg a gasglwyd gan Gynwal a’r marwnadau i Gatrin a ychwanegwyd yn y llawysgrif ar ôl marw Cynwal yn 1587, bedair blynedd o flaen Catrin. Rhaid nodi yma fod yn Christ Church 184 farddoniaeth Saesneg ac ychydig farddoniaeth Ladin yn ogystal â barddoniaeth Gymraeg. Yr oedd Syr Siôn Salsbri, ail fab Catrin ac etifedd Lleweni ar ôl dienyddio’i frawd, yn barddoni ei hun yn Saesneg a bu’n troi yn yr un cylchoedd llenyddol Seisnig â Ben Jonson a Shakespeare (i Syr Siôn a’i wraig y cyflwynodd Shakespeare ei gerdd dra enigmataidd ‘The Phoenix and the Turtle’ sydd, efallai, yn darlunio’r ddau

61 Ibid; hefyd Brown, tt. 36-7 (dyfynnir yn y ddwy ffynhonnell o lsg. Christ Church 184, ffol. 89v).

62 Cf. 12n. uchod.

63 Llsg. Christ Church 184, ffol. 187r.

64 Rhestrir cynnwys y llsg. yn Brown, tt. xxix-xxxv (gan ddefnyddio hen rifiant y dalennau).

65 Llsg. Christ Church 184, ffol. 1r.

66 *Cynnull y Farddoniaeth*, Darlith Goffa J.E. Caerwyn a Gwen Williams 2003 (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2004), t. 12.

67 Gw. Gruffydd Aled Williams, *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), t. cxxi.

yn alegoriaidd, y wraig fel ffenics a'r gŵr fel colomen durtur).⁶⁸ Yn ogystal â'r cerddi Cymraeg – i Gatrin a'i hynafiaid a cherddi diweddarach i Syr Siôn Salsbri ei hunan – fe geir rhwng cloriau Christ Church 184 gerddi Saesneg a ychwanegwyd pan oedd y llawysgrif yn Lleweni: gwaith Syr Siôn Salsbri ei hun, gwaith Robert Chester a oedd yn ei wasanaeth yn Lleweni, cerdd yn llaw Ben Jonson,⁶⁹ dwy gerdd yr ysgrifennwyd ar eu diwedd 'finis quoth Danielle' yr awgrymwyd – yn bur ddadleuol – eu bod yn gerddi gan Shakespeare,⁷⁰ a cherdd gan ryw 'Hughe Gryphyth'.⁷¹ Mae Christ Church 184 yn ddrych hynod ddiddorol o orgyffwrdd dau fyd llenyddol – y Cymraeg a'r Saesneg – yn Lleweni yng nghyfnod Syr Siôn Salsbri.⁷² Ond dyna ysgyfarnog y mae'n rhaid osgoi'r demtasiwn i'w hymlid yma.

Mae un olwg ar Christ Church 184 yn dadlennu bod etifeddiaeth hir o noddi barddoniaeth Gymraeg yn nheulu Catrin o Ferain, etifeddiaeth y gellir ei holrhain am bedair cenhedlaeth cyn Catrin ei hun. Cerddi cysylltiedig â hen-hen-daidd Catrin, Ieuan ap Tudur ap Gruffudd Llwyd – gŵr y mae'n debyg iddo gael ei eni cyn canol y bymthegfed ganrif – yw'r rhai cynharaf yng nghasgliad Wiliam Cynwal: cywyddau gofyn a diolch am rywd bysgota gan Faredudd ap Rhys, bardd-offeiriad

68 Ar hyn gw. Brown, tt. liv-lxxiv. Y mhlith sawl dehongliad arall y mae awgrym Gwyn Williams mai at Syr Siôn Salsbri a'i chwaer-yng-nghyfraith Dorothy Halsall, y cyfansoddodd nifer o gerddi serch iddi, y cyfeirir yn y gerdd, gw. 'Shakespeare's Phoenix', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 22 (1981-82), 277-81. Cyhoeddwyd cerdd Shakespeare gyntaf yn Robert Chester, *Loves Martyr or; Rosalins Complaint* (London: R. B[lount], 1601), tt. 170-172, fel un o nifer o gerddi ar thema'r Ffenics a'r Durtur – prif thema gwaith Chester – a gyflwynwyd i Syr Siôn Salsbri gan 'the best and chiefest of our modern writers' (Shakespeare, John Marston, George Chapman a Ben Jonson), fel math o atodiad ('Poeticall Essaies') i'r gyfrol, *ibid.*, tt. 167-183. Bu dyddiadau'r cerddi yn destun cryn drafod ysgolheigaidd. Dadleuodd Brown fod Chester wedi canu ar y thema flynyddoedd cyn cyhoeddi ei gyfrol, efallai'n fuan ar ôl dienyddio Tomas Salsbri yn 1586, ond credai fod cerddi'r beirdd eraill yn ddiweddarach. Ond dadleuodd E. A. J. Honigmann, *Shakespeare: the 'Lost Years'* (Manchester: Manchester University Press, 1985), tt. 100-109, y gall fod Shakespeare wedi cyfansoddi ei gerdd yntau ddiwedd 1586, adeg priodas Siôn Salsbri ac Ursula Stanley (damcaniaetha fod Shakespeare wedi treulio cyfnod yn sir Gaerhirfryn yng ngwasanaeth cydnabod i'r Stanleyiaid yn y 1580au). Derbynir damcaniaeth Honigmann ynghylch 'The Phoenix and the Turtle' a thrafodir ymhellach berthynas Siôn Salsbri a Shakespeare gan John Idris Jones, 'William Shakespeare and John Salusbury: what was their relationship?', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 59 (2011), 56-96.

69 Arni gw. Bland, 43-78; Syr Israel Gollancz, 'Ben Jonson and the Salusburys', *Times Literary Supplement*, 8 Hydref 1925, 8.

70 Llsg. Christ Church 184, ffols 84r-85r. Ar awduraeth dybiedig Shakespeare gw. Tom Lloyd-Roberts, 'Bard of Lleweni? Shakespeare's Welsh connection', *New Welsh Review*, 23 (Winter 1993-4), tt. 11-18; hefyd Jones, 'William Shakespeare and John Salusbury', tt. 71-7. Dadleuir mai Syr William Daniel o swydd Gaer oedd awdur y cerddi yn John Wing, 'Shakespeare's Mentor? . . . MS 184: Sir William Daniel of Over Tabley', *Christ Church Library Newsletter*, Vol. 6, Issue 2 (Hilary 2010), tt. 1-5. Dywed Brown, t. xxxvi, ei bod yn annhebygol mai'r bardd Samuel Daniel (1562/3-1619) yw'r awdur.

71 Ni wyddys i sicrwydd pwy oedd y bardd hwn, ond gw. Brown, t. 33 ac, yn fwy diweddar, *The Poems of Robert Parry*, gol. G. Blakemore Evans (Tempe, AZ: Arizona Center for Medieval and Renaissance Studies in conjunction with Renaissance English Text Society, 2005), t. 288.

72 Ar ddiwylliant cymysgryw Lleweni yng nghyfnod Syr Siôn Salsbri gw. Sally Harper, 'Shakespearean Revels', *New Welsh Review*, 56 (Summer 2002), tt. 45-52; eadem, 'An Elizabethan Tune List from Lleweni Hall, North Wales', *Royal Musical Association Research Chronicle*, 38 (2005), 45-98 (t. 47); eadem, *Music in Welsh Culture Before 1650: a Study of the Principal Sources* (Aldershot: Ashgate, 2007), pennod 18 (tt. 319-330).

o Riwabon, a marwnadau iddo gan Dudur Aled a chan ddau fardd llai enwog, Ieuan Llwyd Brydydd a Siancyn ab Einion. Mae'r canu yn ei leoli'n bendant yn Llanefydd: yn sgil marw Ieuan gresynai Tudur Aled fod 'llai roddion beirddion ai budd | llai n yved yn llannvfudd'.⁷³ Y peth mwyaf diddorol yn y cerddi iddo efallai yw'r cyfeiriadau ynddynt at ei fedr yn y gyfraith: yn ôl Maredudd ap Rhys yr oedd iddo 'Mowrddysc synhwyrav merddin | Maer ddwy gyfraith vaith ith vin',⁷⁴ tra cyfeiria Tudur Aled yn ei farwnad iddo'n benodol at ei fedr yn y gyfraith Gymreig, cyfraith Hywel: wedi ei farw, meddai'r bardd, 'Ifan, Im ddiiddan [= ymddiddan] a ddel | wrth dduw am gyfraith howel. | os vn gwr sy/n/ y gweryd | Aeth Ir bedd gyfreithiwr byd.'⁷⁵ Mae cyfeiriad Maredudd ap Rhys ato yn 'dyddio',⁷⁶ hynny yw yn barnu rhwng pleidiau gwrthwynebus neu'n cyflafareddu, yn ategu hyn ymhellach. Mae'r darlun o Ieuan ap Tudur yn un o ŵr hirben a diwylliedig a noddai feirdd a chando, yn sgil ei arbenigedd cyfreithiol, safle o bwys yn ei gymdeithas.

Dwy gerdd yn unig a geir yng nghasgliad Cynwal i hen daid Catrin, Tudur ab Ieuan ap Tudur, cywydd i ofyn march gan Ruffudd ap Llywelyn Fychan, a marwnad gan Dudur Aled, ac mae'r ffaith i Dudur Aled farwnadu ei dad yn ogystal yn awgrymu hwyrach iddo farw'n gymharol ifanc. Mae'r ffaith fod Tudur Aled yn awgrymu ei fod yntau yn dyddio, yn cyflafareddu, ac yn cyfeirio ato fel 'selyf ddoeth',⁷⁷ yn awgrymu iddo etifeddu arbenigedd cyfreithiol ei dad. Ac fel ei dad, yn eglwys Fair yn Llanefydd y claddwyd Tudur ab Ieuan:

Ile arch kyff llowarch y kaid,
llann vfvdd lle i henaviaid;
llawr i vedd wrth allor vair,
ai arch ef ar i chyfair.⁷⁸

Fe ddengys casgliad Wiliam Cynwal i daid Catrin, Robert Fychan ap Tudur ab Ieuan, yntau noddai beirdd. Canu cywydd i ofyn march ganddo a wnaeth Siôn ap Hywel, bardd o gyffiniau Treffynnon, disgybl barddol i Dudur Aled, tra canwyd cywydd mawl iddo gan Lewis ab Edward o Fodfari. Yng nghywydd Lewis fe gawn yr wybodaeth mai Robert Fychan a adeiladodd Berain, neu, o leiaf, iddo godi tŷ newydd yno. Fe'i disgrifir gan y bardd fel 'y nevaddvaen newyddvawr | a golvd fwy no gwlad vawr' ac fel 'kaer vawr groes' gyda fframwaith o gyplau pren, un deilwng i'w galw yn 'ail i nef o lann vfvdd'.⁷⁹ Yn ddi-ddorol hefyd mae'r bardd yn nodi bod Robert, fel ei dad a'i daid, yn hyddysg yn y gyfraith: fe'i disgrifir fel 'kof ar waith y kyfreithwyr' ac fel swyddog cadarn,⁸⁰ a nodi hefyd ei fod yn 'Ryssvfw'r Ros', hynny yw, yn gasglwr trethi a thaliadau eraill yn nghantref Rhos.⁸¹ Fe wyddom o ffynhonnell arall iddo gael ei benodi ar y cyd gyda'i fab Tudur yn

73 Llsg. Christ Church 184, ffol. 95v.

74 Ibid., ffol. 91r.

75 Ibid., ffol. 95v.

76 Ibid., ffol. 93r.

77 Ibid., ffol. 96v.

78 Ibid., ffol. 97v.

79 Ibid., ffol. 101r.

80 Ibid., ffol. 101v.

81 Ibid., ffol. 102r.

1538 yn recorder, hynny yw yn ustus neu'n farnwr, arglwyddiaeth Dinbych.⁸² Mae'n amlwg fod arbenigedd cyfreithiol yn etifeddiaeth deuluol ymhlith teulu tad Catrin, a'r tebyg yw mai fel swyddogion lleol yn gweithredu ar ran arglwyddi absennol Seisnig arglwyddiaeth Dinbych y daethant i amlygrwydd a chrynhoi eu cyfoeth. Pan fu farw Robert Fychan yn 1543 nid rhyfedd i Ruffudd Hiraethog yn ei farwnad iddo alaru fod 'oernych' ar sir Ddinbych,⁸³ a bod Lewis ab Edward yn ei farwnad yntau yn ei goffáu fel barnwr cyfiawn, 'anrugaroc enwoc wr | ni bv robart na breibiwr'.⁸⁴ Pan ddaeth Syr Roland Filfel i gytundeb â Robert Fychan yn 1531 i roi llaw ei ferch – wyres Harri'r seithfed efallai – mewn priodas i fab Robert,⁸⁵ nid llunio cytundeb â rhyw fân uchelwr dinod a wnaeth, ond â gŵr a oedd, gellir tybio, yn flaenllaw iawn, yn wir, yn un o bileri'r sefydliad yn arglwyddiaeth Dinbych.

Ffrwyth y briodas honno, wrth gwrs – rhwng Tudur ap Robert a Siân Filfel – oedd Catrin o Ferain. Mewn nodyn yn Christ Church 184 fe nododd Wiliam Cynwal ffaith ddiddorol:

ar kowyddav i gyd sy ryngtho fo ai ail wraic ochos marw o sian
velivel yn Ifangk ac wedi hynny y priododd mr Tvdvr varged wenn
vz [= verch] ac aeres Rys Wynn ap daüd annwyl⁸⁶

Gan i'w mam farw'n ifanc mae'n debyg mai gan ei mam wen y magwyd Catrin yn bennaf. Sut bynnag, mae'n sicr y byddai clywed beirdd ar y gwyliau yn datgan eu cerddi gerbron ei thad a'i mam wen yn rhan bwysig o fagwraeth Catrin ym Merain. Yn ei gasgliad fe gynhwysodd Cynwal gynifer ag ugain o gerddi i Dudur ap Robert gan naw o feirdd,⁸⁷ yn eu plith rhai o feirdd amlycaf yr oes fel Gruffudd Hiraethog, Lewis ab Edward, Simwnt Fychan, Siôn Brwynog, Siôn Tudur, a'r Wiliam Llŷn ifanc. Yr oedd sawl tant i'w mawl. 'Tad y roi yw tvdvr hael,' meddai Simwnt Fychan, cyn troi i foli ei ddysg yn y gyfraith a'r Gymraeg: 'kofiawdr kyfreithlyfr kyfiawn | kymro ddvll kymroeaidd iawn | mvr llv yw/r/ kymro llawen | mawr y kar gymraec hen.'⁸⁸ Ceir awgrymiadau diddorol mewn cywyddau gan Mathau Brwmffild a Lewis ab Edward fod Tudur wedi treulio cyfnod yn y llys brenhinol yn Llundain yn nyddiau Harri'r wythfed ac Edward y chweched: 'eryr kwrt harri' ydoedd yn ôl y naill, tra honnai'r llall, 'Ai les aed o lys Edwart'.⁸⁹ Ond canolbwynt sylw'r beirdd yn eu cerddi iddo yw mawl i wleddoedd Berain ar y gwyliau, gyda'u seigiau blasus a'r ddiodyd yn llifo. Meddai Gruffudd Hiraethog:

yn helaeth gwssanaeth sydd
or gwenith ffrwyth ar gwinwydd

82 Gw. *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Roberts, II, t. 141.

83 Llsg. Christ Church 184, ffol. 106r.

84 Ibid., ffol. 104r.

85 Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Lleweni Collection, rhif 370.

86 Llsg. Christ Church 184, ffol. 116r.

87 Ibid., ffols 109r-139r.

88 Ibid., ffol. 128v.

89 Ibid., ffols 113v, 127r.

bara gyda bragowdwin,
braster o gic bir seidr gwin⁹⁰

A dyma ichi fardd o'r enw Gruffudd Llwyd ab Ieuan, yn taro'r un tant:

Mae/n/ i blas mewn i bleser
ai ynav pan ai win per
ai vara kann ai vowredd
ai vir ai hen gwrff ai fedd
ai seigiav n hardd sy gann hwnn
ni bwyf vnssaic heb venssw⁹¹

Mae'n mynd rhagddo i foli allanolion Berain. Mae'n siŵr iddo blesio Tudur ap Robert wrth ddyrchafu Berain drwy adleisio cywydd enwog Iolo Goch i Sycharth, llys Owain Glyndŵr:

ai glomendy glo maendwr
ac yw blas gwiw vrddas gwr
ai gwn ai veirch gwynn i vyd
a chyfoch a gweilch hevyd
ai wych borvadir ai wair
ai gaeav yd yn gowair⁹²

Mae'n sicr y byddai clywed cerddi fel hyn, yn cael eu datgan i gyfeiliant telyn neu grwth, yn rhan bwysig o gynhysgaeth ddiwylliannol Catrin o Ferain, fel ei hynafiaid hwythau.

Yng nghasgliad Christ Church 184 fe geir tair marwnad i Dudur ap Robert a ganwyd adeg ei farw yn 1564, gan Wiliam Llŷn, Lewys ab Edwart, a Wiliam Cynwal. Mae'r tri bardd, fel y gellid disgwyl, yn crybwyll Catrin, gwraig briod Siôn Salsbri a mam i blant erbyn hynny, a hefyd, wrth gwrs, aeres ei thad. Wrth alarnadu marw Tudur, ymhyfrydai Wiliam Llŷn yn yr olyniaeth: 'vn gwr aeth benaeth or byd | ac vn verch yw yn gwynnfyd'.⁹³ Mae galar Catrin ar ôl ei thad yn cael sylw'r tri bardd. Meddai Lewys ab Edward:

Gwae ninav gan i anerch
Gwae draw n fwy gatrín i verch
Gwir mae n dwyn gwewyr am dad
Gwnai yw arwyl gwyn irad⁹⁴

Dyma fel y mae Cynwal yn cyfeirio at Gatrín:

90 Ibid., ffol. 130v.

91 Ibid., ffol. 121r.

92 Ibid., ffol. 121r-121v. Cf. *Gwaith Iolo Goch*, gol. D. R. Johnston (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1988), t. 47.

93 Ibid., ffol. 138v.

94 Ibid., ffol. 135v. irad = trist.

ar ol hwnn hardd fryttwn hael
 aeres lys berain irael
 katrin yn roi gwin y rawc
 Gwawr dvdvr eryr odidawc
 lili ir wych loewloer wenn
 lwysswawr i roi elvssen
 Gwae/r/geinferch a garw gwynfan
 am y thad avr levad lan⁹⁵

Ar ddiwedd y copi o'i farwnad ef yn Christ Church 184 fe ysgrifennodd Wiliam Cynwal 'ar kyntaf oi waith yr ioed':⁹⁶ dichon mai canu marwnad ei thad oedd dechrau ymwneud Cynwal â Chatrin. Yn sicr, â Chynwal, o blith y beirdd i gyd, y datblygodd aeres Berain y berthynas agosaf maes o law.

Fel Catrin yr oedd ei gŵr Siôn Salsbri yn hanu o gyff ac iddo hen draddodiad o groesawu beirdd ac nid rhyfedd fod beirdd wedi canu iddo ef a Chatrin: Lewys ab Edward, Simwnt Fychan, Wiliam Llŷn ac, wrth gwrs, Wiliam Cynwal. Mae cyfeiriadau yn y cerddi yn dangos iddynt wneud hynny ym Merain, cartref Siôn a Chatrin ar ôl marw Tudur ap Robert, os nad cyn hynny. Er mai Siôn Salsbri oedd prif wrthrych y mawl – mewn oes pan oedd dynion oruchaf, dyna a fynnai'r *etiquette* farddol – fe gyfeirir yn y cerddi at Gatrín hithau, gan nodi ei bod, chwedl Simwnt Fychan, 'o ryw felvel'.⁹⁷ Wrth gyfarch ei gŵr fel hyn y try Wiliam Cynwal i foli Catrin:

ac ywch y rhoed gwcha rann
 Gwraic Evraid yn graic arian
 katrin wen gwinwydden gv
 kymrwyd yn veistres kymrv
 Iarlles o dvdvr evrlllew
 ap Robart ar lawdart lew
 a honn y sydd gwenddydd gain
 aeres y llys ymerain ...
 bv val blaid bv i vil oi blaen
 brvtvs sr rolant brytaen
 a honn y sydd rydd roddion
 aeres bvwmares y mon⁹⁸

Mewn cywydd arall mae Cynwal yn darlunio Catrin fel 'hwsswi' (o'r Saesneg *housewife*) yn teyrnasu ym Merain, gan hefyd foli'r llys, a oedd yn deilwng, yn ôl y bardd, nid yn unig i'w gymharu ag adeiladau Caer Llŷn, ond hefyd ag eglwys gadeiriol Sant Pawl yn Llundain, ac â pharadwys ei hunan:

95 Ibid., ffol. 137r.

96 Ibid., ffol. 137v.

97 Ibid., ffol. 142v.

98 Ibid., ffol. 149r.

katrin wych wawr ddistrych wedd
 kain i llvn kannwyll wynedd
 a hi sy sy wenn hwsswi wych
 aeres llys berain Irwych
 Gwal wawr bvr gwelir o bell
 Gwal kystal a gwal kastell
 kaer fraisc Is law kwrr y fronn
 kor llvoedd val kaer llion . . .
 parlyrav glan perl avr glwys
 parwydydd val paradwys
 porth yw i wlad porth y wledd
 plas igeinoes powls gwynedd⁹⁹

Ond fe ddaeth diwedd disymwth ar ddedwyddydd Catrin a'i gŵr ym Merain. Ddechrau haf 1566 fe ganodd Wiliam Cynwal gywydd i Siôn Salsbri a wnaed, yn ôl y pennawd yn Christ Church 184, 'mewn nosswaith pann oedd ef yn glaf',¹⁰⁰ ymateb brys mewn argyfwng, mae'n amlwg. Mae'n darlunio fel y trawyd Salsbri gan haint, 'oer roi haint val y rew hwyr | orwedd sion Iraidd synwyr', gan sôn am bryder Catrin am ei gŵr:

ai wraic wych wiw rowioc wedd
 wenn hynod mewn anhvnedd
 katrin gall mewn kytran gvr
 kan llv i daed kanwyll dvdvr
 bv yn ias oer bevnes wenn
 brvdded wyneb ireiddwen . . .
 os yw lawn Is havl anian
 o bryder maith bryd eiry man
 Iessv ai tro ais waed rydd
 yn llovnach mewn llawenydd¹⁰¹

Ond ofer fu ymbil y bardd. Cyn bo hir yr oedd Catrin yn weddw am y tro cyntaf, a'r beirdd yn canu marwnadau Siôn Salsbri, a fu farw'n ifanc cyn ei dad. Fe gadwyd saith ohonynt yn Christ Church 184,¹⁰² gyda Wiliam Cynwal yn canu nid yn unig gywydd ond awdl yn ogystal, awgrym o'i berthynas arbennig â'r teulu ac â Chatrin – a cherddi hefyd gan Raff ap Robert, Wiliam Llŷn, Simwnt Fychan, Siôn Tudur a Huw Ceiriog. Gresynai'r beirdd at y golled i Leweni ac i Ferain – 'a bronn llaweni heb wres | a brynn gwin berain gynnes,' meddai Wiliam Llŷn¹⁰³ – ac fe soniodd pob un, fel y gellid disgwyl, am alar Catrin: 'oer yw kwyn i wraic hynod,' meddai Wiliam Cynwal, gan nodi newid byd 'katrin wenn', 'dvw gwae ni golevni gwlad |

99 Ibid., ffols 143v-144r.

100 Ibid., ffol. 150r.

101 Ibid., ffols 150v-151r.

102 Ibid., ffols 151v-162v.

103 Ibid., ffol. 159v.

dowyllw liw i dillad'.¹⁰⁴ Gresynai Raff ap Robert fod 'meistres katrin', fel y geilw hi, 'hithav ai bronnav heb wres | fry oi gladdv varglwyddes',¹⁰⁵ ac yn ôl Siôn Tudur yr oedd Catrin yn 'brvdda vn verch braidd yn vyw', ac yn ei galar yn 'dwyn gwisce dv iawn i gosgedd | dymvna i bod mewn bedd'.¹⁰⁶ Yr oedd un cysur, fodd bynnag, sef bod yr olyniaeth deuluol yn sicr: mae'r beirdd yn cyfeirio at 'y mastr tomas',¹⁰⁷ 'aer llywenni'¹⁰⁸ ac 'aer berain',¹⁰⁹ plentyn pum oed ar y pryd, a hefyd at 'y mastr siôn', ei frawd bach iau.¹¹⁰

Yn ystod cyfnod ei gweddwdod byr ar ôl marw Siôn Salsbri fe gawn Wiliam Cynwal yn canu i Gatrin drachefn, cywydd yn gofyn rhodd o huling gwely, sef cwrlid, un wedi ei addurno â 'meillion haf', 'llvniav adar' ac 'onn a dail' mewn brodwaith lliwgar,¹¹¹ gan roi inni gip ar foethusrwydd domestig Berain. Yn arwyddocaol efallai mae'n cyfarch Catrin fel 'Y fvn wa[e]d Ieirll'¹¹² – cofier am deitl Harri Tudur, sef Iarll Rhismwnt – ac yn canmol y weddw ifanc am gynnal ym Merain 'heb achwynwaith | I llvs [= llys] i roi lles yr iaith'.¹¹³ Ddiwedd gwanwyn 1567, fodd bynnag, fe ffarweliodd Catrin â Berain yn sgil ei phriodas â'r masnachwr cyfoethog Rhisiart Clwch, cynrychiolydd Syr Thomas Gresham yn Antwerp, 'after a whirlwind romance' yn ôl un awdur diweddar,¹¹⁴ er na ddylid ychwaith, efallai, ddiystyru cymhellion materol yn llwyr yn y cyswllt hwn.¹¹⁵

Yn ystod absenoldeb Catrin yn ystod y tair blynedd nesaf – yn Antwerp ac wedyn yn Hamburg lle bu Rhisiart Clwch yn ddirprwy i'r 'Company of Merchant Adventurers' a hefyd ar deithiau i Ddenmarc a Sbaen – nid anghofiodd Wiliam Cynwal am ei hoff noddwraig. Yn Christ Church 184 fe gofnododd ddau gywydd a ganodd pan oedd Catrin 'tu wnt Ir mor'.¹¹⁶ Yn y cyntaf mae'n cymryd arno gyrru'r gwalch yn gennad ati hi a'i gwŷr, gan gyfeirio'r aderyn drwy Lundain i Antwerp. Mae Cynwal yn dwyn ar gof y dyddiau diddan gynt pan gâi 'aros ymerain' 'a chael yno iach lownych | win[o]jedd ac avr annedd gwyach',¹¹⁷ ond bellach meddai 'mae merain lefain lafvr | Trvan na bai gatrin bvr' ac mae'n ei hannog i 'fryssio adref'.¹¹⁸ Ond nid Berain oedd yr unig atyniad yng Nghymru ychwaith. I borthi balchder Rhisiart Clwch mae Cynwal hefyd yn canmol Bachegraig, ei dŷ newydd ysblennydd ger Tremeirchion: 'yma oi vewn mwyaf yw | orsedd hawdd ar sydd

104 Ibid., ffol. 155r.

105 Ibid., ffol. 153v.

106 Ibid., ffol. 157r.

107 Ibid., ffols 154r (Raff ap Robert), 158r (Simwnt Fychan), 159v (Wiliam Llŷn), 161r (Wiliam Cynwal).

108 Ibid., ffols 157r (Siôn Tudur), 159v (Wiliam Llŷn).

109 Ibid., ffol. 157r (Siôn Tudur).

110 Ibid., ffols 154r (Raff ap Robert), 159v (Wiliam Llŷn), 161r (Wiliam Cynwal).

111 Ibid., ffol. 163v.

112 Ibid., ffol. 162v.

113 Ibid., ffol. 163v.

114 Blanchard, 'Richard Clough', t. 209.

115 Honnodd Mrs Thrale, disgynnydd i Gatrin, iddi briodi Clwch 'for his Money's sake' (*Thraliana: The Diary of Mrs Hester Lynch Thrale (Later Mrs Piozzi) 1776-1809*, gol. Katharine C. Balderston, 2 gyf. (Oxford: The Clarendon Press, 1942), I, t. 275, n.3). Ond diystyrir hyn gan Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 47.

116 Llsg. Christ Church 184, ffols 164v-167r.

117 Ibid., ffol. 165r.

118 Ibid., ffol. 165.

heddyw | a mwyaf glwysfaf, gloewssyth | eurvodd berc ar a vydd byth.¹¹⁹ Yn yr ail gywydd mae Cynwal yn cymryd arno anfon llong – y mae'n ei chymharu, ymhlith pethau eraill, ag arch Noa – 'i nol mr ric klwch a meistres katrin adref o ddengmark'.¹²⁰

dos beynydd bydd dwv/n/ dy bart
drossodd at y mastr rissiat
a thynn oll nith ynnillir
a markia hafn dengmark hir . . .
a dwc Ir wlad nad yn ol
wawr grysswen i wraic rassol.¹²¹

Er i'r uniad esgor ar ddwy ferch, Ann a Mari, byr – tair blynedd yn unig – y parhaodd priodas Catrin â Rhisiart Clwch, oherwydd bu farw Clwch yn Hamburg yng ngwanwyn 1570. Fe gadwyd tair marwnad iddo yn Christ Church 184, gan y ffyddlon Wiliam Cynwal, a hefyd gan ddau o feirdd Dyffryn Clwyd, Siôn Tudur a Simwnt Fychan. Fe gydymdeimlir â Chatrin a adawyd unwaith eto'n weddw, gyda Chynwal yn nodi mai 'wylaw dwv fu dialwr | ydyw i gwaith wedi i gwr'¹²² a Siôn Tudur yn gresynu at wae ei 'wraic vrddassol', ac yn ffeiddio Hamburg lle bu Clwch farw fel 'ffyrnigwlad' ac 'vffernwlad oer'.¹²³ Nid yw'n syndod fod y tri bardd yn sôn am ei gyfoeth: prin mai gormodieithu a wnâi Cynwal pan gyfeiriai at ei 'dryssor' na Siôn Tudur pan soniai fod Clwch yn meddu ar 'avr y bangk' a dweud, gan daro ar drosiad tra addas, 'sikr iawn val y seker oedd'.¹²⁴ Ond maent hefyd yn nodi ei haelioni a'i elusengarwch: yn ôl Siôn Tudur yr oedd Clwch yn un 'hael pvr gwych a helpiai/r/ gwann'.¹²⁵ Cyfeiria'r penawdau i'r tair marwnad at Clwch fel 'marchog o vedd krist',¹²⁶ yr anrhydedd a gafodd yn ŵr ifanc ar bererindod i wlad Canaan, anrhydedd Catholig y byddai wedi bod yn annoeth iddo'i arddel yn gyhoeddus ond sy'n awgrym efallai ynghylch ei deyrngarwch crefyddol. Fe gyfeiria Simwnt Fychan at ei lys newydd ysblennydd ym Macheograig, gyda'i frics wedi eu mewnfario o Antwerp a'i gerrig marmor: 'Main nadd val y mynnodd vo | Main o anwarp mae yno | Main a gwydd mann y gwedda | Marbwl ystons mowrblas da.'¹²⁷ Ac mae Wiliam Cynwal yn sôn ar ddiwedd ei gywydd fel y claddwyd corff Rhisiart Clwch yn Hamburg ond y cludwyd ei galon yn ôl i'r Eglwys Wen yn Ninbych: 'I gorff sydd gynnydd gwynwaith | obrv o fewn hambrow vavr (*recte* = 'vaith') | ai galon hawdd ynn goeliaw | ebwch drom yn ninbych draw.'¹²⁸

Yn fuan wedi marwolaeth Rhisiart Clwch fe gyfansoddodd Cynwal gywydd arall, y tro hwn i groesawu Catrin adref i Ferain, 'kares wyth lv kroesso /i/th/

119 Ibid., ffol. 165v.

120 Ibid., ffol. 166r.

121 Ibid., ffol. 166v.

122 Ibid., ffol. 169r.

123 Ibid., ffol. 171v.

124 Ibid., ffols 170r, 171r. siekr = 'exchequer'.

125 Ibid., ffol. 171r.

126 Ibid., ffols 168v, 170r, 171v.

127 Ibid., ffol. 172v.

128 Ibid., ffol. 170r. Hambrow = Hamburg. Ysgrifennwyd y cywiriad *vaith* ar ymyl y ddalen.

wlad'.¹²⁹ Mae'n olrhain teithiau Catrin gynt gyda'i gŵr:

ac val hynn gwiwvawl henwi
 wrth ystad yr aethost di
 gida th wr mewn kyflwr kain
 gwir lendyd i gaer lvndain
 o lvndain hardd riain hael
 Ir galais evrloer gvlael
 a thrwy ffraingk winvaingk Iownvawr
 hoff lowndres vodd i fflandrs fawr
 o frebant gwarant geirwir
 Iawn tro pell i antwarp hir
 ac ywch wedi gwyh ydoedd
 yn yr yssbaen wrssib oedd
 yn hambrw vffern henbryd
 o vewn dengmark bark y byd¹³⁰

Sonia wedyn am ei dychwelyd 'I loegr yn ddyn weddw liwgain' gan orfoleddu iddi ddod maes o law 'ich ty /ch/ hvn y fvn fain | drwy fowredd i dre ferain'.¹³¹ Yr oedd dychweliad Catrin i'w chynefin, meddai, fel dyfodiad yr haf wedi gaeaf tragwyddol,¹³² ac mae'n gorffen ei gywydd drwy ei chynghori 'fry na ddos hael linos lan | farn well o ferain allan'.¹³³ Ac yr oedd Cynwal yn ddigon hy ar Gatrin i'w chynghori drachefn, oherwydd fe geir ganddo gywydd pellach 'i meistres katrin pan oedd yn wraig weddw wydy marw y mastr klwch yw chynghori i wra'.¹³⁴ Ynddo mae Cynwal yn pwysu a mesur y dewisiadau posib i Gatrin: y bardd yn rhith cynghorwr priodas megis! Er nad da, meddai, oedd 'hir wedddod [= weddw-dod]', 'Gwell gweddod drwy ddefod dda | hydr gerydd no drwg wra'.¹³⁵ Fe fyddai Catrin yn gyff gwawd, meddai, pe bai'n priodi gŵr 'o iach [= ach] isel'; ar y llaw arall dylai ochel rhag priodi gŵr o uchel radd o chwant cyfoeth, oherwydd 'ni ffery . . . y da ar byd ond awr bach'.¹³⁶ Gwelsai Catrin, meddai Cynwal, ddigon o'r byd, a'i gyngor iddi oedd aros ym Merain ac mai 'di ddig dyweddi agos'.¹³⁷ Flwyddyn ar ôl marw Rhisiart Clwch fe wyddom fod John Vaughan, ysgwier y Gelli Aur yn sir Gaerfyrddin, yn eiddgar i drefnu i'w aer briodi Catrin; fe awgrymodd Enid Roberts mai anesmwythyd ei theulu a'i chyfeillion oherwydd y trefniant posib â theulu o sir Gaerfyrddin bell oedd y cefndir i gywydd Cynwal.¹³⁸ Maes o law fe gafodd Catrin 'ddyweddi agos' yn ôl dymuniad Cynwal: fe ddaeth yn drydedd wraig i Morys

129 Ibid., ffol. 167v.

130 Ibid., ffols 167v-168r.

131 Ibid., ffol. 168r.

132 Ibid.

133 Ibid., ffol. 168v.

134 Ibid., ffols 174v-176r.

135 Ibid., ffol. 175r.

136 Ibid.

137 Ibid.

138 Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 53.

Wyn, ysgwïer Gwydir, cyn diwedd Ionawr 1573.¹³⁹

Yr oedd traddodiad cryf o noddi beirdd gan Wyniaid Gwydir, ac fe wyddom i Morys Wyn a Chatrin groesawu beirdd yng Ngwydir yn ystod saith mlynedd eu priodas.¹⁴⁰ Ac yr oedd y Thelwaliaid, teulu ei gŵr olaf, hefyd yn noddwyr.¹⁴¹ Ond nid yw Christ Church 184 yn cofnodi cerddi sy'n perthyn i gyfnodau dwy briodas olaf Catrin. Ar ôl dyddiau Wiliam Cynwal – a fu farw yn 1587 – fe ychwanegwyd at ei gasgliad o gerddi i Gatrin a'i theulu gasgliad o farwnadau i Gatrin a ganwyd ar ôl ei marwolaeth ddiwedd Awst 1591.¹⁴² Mae nifer y marwnadau ynddo'i hun yn eithriadol: tair marwnad Ladin, tair marwnad Saesneg, ac wyth marwnad Gymraeg, pedair ar ddeg i gyd, cyfanswm o bron 1,350 o linellau, a thros 900 ohonynt yn Gymraeg. Mae ymateb helaeth y beirdd yn tystio i ymdeimlad amlwg bod gwraig bur nodedig wedi marw. Rhaid canolbwyntio yma ar y marwnadau Cymraeg.¹⁴³ Ond mae'r marwnadau Lladin a Saesneg hefyd yn ddiddorol,¹⁴⁴ ac yn tystio, wrth gwrs, i'r diwylliant cymysgiaith a ddatblygasai ymhlith teuluoedd uchelwrol Cymru erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg.

Cyn bwrw golwg ar y marwnadau mae un manylyn bach i'w nodi. Yn sgil ei phriodas ag Edward Thelwal nid rhyfedd mai fel 'katheryn theloal' y llofnodai ei henw yn ystod ei blynyddoedd olaf (fel y bu gynt yn llofnodi ei henw fel 'Katherin Salesbury' a 'Katheryn Wynn').¹⁴⁵ Ond yn y pennawd uwchben pob un o'r marwnadau Cymraeg iddi a dwy o'r rhai Lladin fe gyfeirir ati fel 'Katering/Katrin Tudur', ac yn nwy o'r cerddi Saesneg – gan ei chefneder, Robert Parry o Dywysog yn Henllan a chan Gadwaladr Wyn o'r Foelas – er bod penawdau'r cerddi'n cyfeirio ati fel 'Katheryn Theloall' fe'i gelwir o fewn y cerddi'n 'katheryn tudur/Tudyr'.¹⁴⁶ Priodol, wrth gwrs, fyddai ei galw'n 'Catrin Tudur' yn rhinwedd y ffaith ei bod yn ferch i Dudur ap Robert. Ond, wrth gwrs, yr oedd cysylltiad Tuduraidd posib arall. Mentrus fyddai honni dim yn bendant, ond o gofio am y gred fod Syr Roland Filfel,

139 Ballinger, t. 13; Roberts, 'Priodasau Catrin o Ferain', t. 54.

140 Ar y canu i Forys Wyn yn ystod y cyfnod pan oedd Catrin yn briod ag ef gw. John Gwilym Jones, 'Teulu Gwedir fel Noddwyr y Beirdd' (traethawd M.A. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, 1975), tt. 29-33. Y cerddi y gellir eu dyddio'n bendant i'r cyfnod hwn yw cywydd gofyn gan Siôn Tudur a'r marwnadau a ganwyd i Wyn gan Wiliam Cynwal a Siôn Phylip. Yn ei gywydd ymhyfyrdai Siôn Tudur ddarfod cael 'Gwawr Ferain i gaer Forus' (*Gwaith Siôn Tudur*, gol. Roberts, I, t. 122).

141 Gw., e.e., cerddi Wiliam Llŷn i Simwnt Thelwal (Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' [traethawd Ph.D. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, 1983], rhifau 5 a 34). Ceir casgliad pur helaeth o gerddi i aelodau'r teulu yn llsgr. British Library Additional 14965, ffols 230-70, gan gynnwys marwnadau i Simwnt Thelwal (ffols 234-8) ac i Edward Thelwal (ffols 240-8), er nad yw'r llsgr. yn cynnwys cerddi sy'n perthyn i'r cyfnod pan oedd Catrin yn briod ag Edward Thelwal.

142 Llsgr. Christ Church 184, ffols 176r-202v.

143 Canwyd y marwnadau Cymraeg gan Siôn Tudur, Simwnt Fychan, Siôn Phylip, Huw Machno, Morus Berwyn, Rhisiart Phylip, Robert Ifan ac Edward ap Raff (ibid., ffols 185r-202v).

144 Canwyd y marwnadau Lladin gan Owen Jones (dwy) a David Jones (ibid., ffols 176r-180v) a'r marwnadau Saesneg gan Robert Parry, Cadwaladr Wyn, a Robert Salusbury (ibid., ffols 181a-184r). Cyhoeddwyd y gyntaf o farwnadau Owen Jones a detholion o'r marwnadau Lladin eraill ac o'r marwnadau Saesneg gan Brown, tt. 38-43. Cyhoeddwyd marwnad Robert Parry yn *The Poems of Robert Parry*, gol. G. Blakemore Evans, tt. 309-13.

145 Am enghreifftiau o lofnodion Catrin lle defnyddia ei chyfenwau priodasol gw. Ballinger, Plât 5 (i wynebu t. 41).

146 Llsgr. Christ Church 184, ffols 181r, 182v.

ei thaid, yn fab i Harri'r seithfed a, phe bai'r gred yn wir, y gallai Catrin honni perthynas â'r Tuduriaid brenhinol – yn eu plith y Frenhines Elisabeth – nid yw'n gwbl amhosib mai awgrym bwriadus o gyswllt brenhinol oedd ei galw'n 'Catrin Tudur'. Diau mai at y cyswllt brenhinol tybiedig drwy Syr Roland Filfel y cyfeiria dau o'r beirdd yn eu marwnadau iddi: meddai Morus Berwyn, 'Meistres katrin llin Ieirll oedd'¹⁴⁷ (cofier bod Harri Tudur, fel ei dad, yn Iarll Rhismwnt), tra disgrifir marw Catrin gan Edwart ap Raff fel 'bwrw hen iownwaed brenhiniaeth'.¹⁴⁸

Mae elfennau sy'n gyffredin i bob un o'r marwnadau. Yn un peth, maent i gyd yn cyfeirio at briodasau Catrin, gan enwi'r gwŷr – Siôn Salsbri, Rhisiart Clwch, Morys Wyn, ac Edward Thelwal – gan hefyd restru'r plant o'r tair priodas gyntaf, nid bychan o gamp mewn cynghanedd, er nad yw'r rhestru, fel y gellid disgwyl, yn esgor ar farddoniaeth ysbrydoledig iawn. Ond mae un peth yn drawiadol ynghylch rhestru'r plant: Siôn, Ann, Mari, Edward a Siân. Sylwer nad yw'r un o'r beirdd yn cyfeirio o gwbl at Tomas Salsbri, mab cyntafanedig Catrin, 'litle Thome Salusbury' chwedl ei fam, a ddiennyddiwyd mewn cywilydd bum mlynedd ynghynt fel cynllwynwr Catholig. Dyma fab a groesawyd i'r byd fel 'pavn Gwynedd' mewn englyn gan Wiliam Cynwal adeg ei eni yn 1561 ac a glodforwyd yn ŵr ifanc gan Siôn Tudur fel 'Egin orau llin, aer Lleweni',¹⁴⁹ ond ym marwnadau ei fam mae distawrwydd y beirdd – a Siôn Tudur yn eu plith – yn llethol: mae fel petai Tomas heb fod erioed. Adlewyrchiad oedd hyn, yn ddiau, o ddymuniaid y Salsbriaid i adfer enw da'r teulu a sicrhau statws yr aer, Siôn Salsbri. Mae rhai pethau weithiau y mae'n well gan deuluoedd eu hanghofio.

Pa elfennau cyffredin eraill a geir yn y marwnadau i Gatrin? Nid rhyfedd efallai fod y beirdd yn llaes eu canmoliaeth i'w chroeso a'i nawdd iddynt gynt: 'gwahoddi vi iw thai ai thir | a heddiw nim gwahoddir,' meddai Siôn Tudur, gan ragweld byd llwm, 'heb gyntrent avr heb gatrin | heb groeso gwyl heb gwrs gwin'.¹⁵⁰ Dwyn ar gof bleserau 'trin gwin maistres katrin gynt' a wnâi Simwnt Fychan yntau,¹⁵¹ tra mynnai Huw Machno 'a byrddio.r.ioed beirdd iroedd',¹⁵² ac y nododd Morus Berwyn 'ni chwarrdd vn bardd yn y byd' yn sgil ei marw.¹⁵³ Ond er pwysiced i'r beirdd oedd coffâu Catrin fel noddwraig hael iddynt hwy, amlycach fyth yn y marwnadau oedd coffâu ei haelioni at weiniaid, truenusion ac anffodusion cymdeithas. Fe ddywed Simwnt Fychan, yn gywir yn ddiau, am Gatrin, 'golvdawc kyfoethawc fv', ond noda hefyd 'ai rhinwedd rhoi i weiniaid'.¹⁵⁴ Ac meddai Siôn Tudur yntau amdani, 'Ni thyrrodd nyth o arian | Ond i rhoi.n. gynt ir hen gwann,'¹⁵⁵ tra gresynai Siôn Phylip 'gwae.r. gwann gwae awr ac ennyd | golli i bath gwae oll y byd'.¹⁵⁶ Trewir

147 Ibid., ffol. 193v.

148 Ibid., ffol. 200v.

149 Cofnodwyd englyn Cynwal gan Thomas Evans, Hendreforudd yn Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llsgr. LIGC 1553A, t. 688. Yn y pennawd i'r englyn disgrifir Tomas Salsbri fel 'y gwr aeth yn erbyn y goron'. Am ostep o englynion Siôn Tudur gw. *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Roberts, I, tt. 50-1.

150 Llsgr. Christ Church 184, ffol. 185v.

151 Ibid., ffol. 187r.

152 Ibid., ffol. 191v.

153 Ibid., ffol. 194r.

154 Ibid., ffol. 188v.

155 Ibid., ffol. 186v.

156 Ibid., ffol. 190v.

yr un tant gan Huw Machno sy'n nodi mai 'vn odiaeth wrth wann ydoedd',¹⁵⁷ a chan Forus Berwyn yntau, sy'n gofyn 'I'r gwann o gaer i gonwy | a ellid fyth golled fwy.'¹⁵⁸ Ond Rhisiart Phylip sy'n manylu fwyaf ar y wedd hon:

gwae.r. gweiniaid ai geirw gwynion
 gwae ymddifaid mwy haid am honn
 Da ar ssiel ir ymwelai
 dvl Non i diwallv a wnai
 Pob noeth fo wyr pawb i nad
 a ddiwallodd o ddillad
 Ni bv ddyn a newyn awr
 Wrth i drws diwarth dryssawr
 Na chafodd iawn i chofiaw
 ginio.n.wir ddiigon i naw.¹⁵⁹

Diddorol yw'r cyfeiriad at Gatrin yn ymweld â'r 'siel', y jêl neu'r carchar, ac yn diwallu carcharorion. Ond amhosibl yw gwybod ai gwirionedd llythrennol sydd yma ynteu adlewyrchiad o Saith Weithred y Drugaredd, a seiliwyd ar eiriau Crist yn mhumed bennod ar hugain efengyl Mathew: yr oedd ymweld â charcharorion, megis bwydo'r newynog a dilladu'r noeth, ymhlith y saith weithred gymeradwy.¹⁶⁰ Fe all, wrth gwrs, mai confensiwn sy'n cyfrif yn rhannol am sôn y beirdd am elusengarwch Catrin – dyna un o nodweddion stoc gwraig rinweddol – ond mae amlygrwydd mawr yr elfen hon yn awgrymu efallai nad felly yr oedd yn llwyr. Fe all fod yn arwyddocaol y'i ceir hefyd yn y marwnadau Saesneg, megis un Robert Parry, sy'n taro'r un tant â'r beirdd Cymraeg:

All tasted of her frendly turnes, non empty went her froe
 betweene her servants and the poore the rest she did bestowe,
 Had she bein given to hoorde vp wealth she myghte had coyne in store
 for to compare wyth any one, that Camber bred before.
 What others kepte to purchase lande and gathered in longe space
 she did distribute to the poore in heaven to gaine a place.¹⁶¹

Fe gladdwyd Catrin ar 1 Medi 1591,¹⁶² bum dydd ar ôl ei marwolaeth, yn eglwys Fair yn Llanefydd, a hynny, gellir tybio, o fewn yr eglwys ei hunan yn unol â'i statws: fe sonia Edwart ap Raff am 'Tann gwrr koeten o garrec | kav tirion dal

157 Ibid., ffol. 191v.

158 Ibid., ffol. 194r.

159 Ibid., ffol. 197r.

160 Gw. Eamon Duffy, *The Stripping of the Altars: Traditional Religion in England c.1400–c.1580*, ail argraffiad (New Haven and London: Yale University Press, 2005), tt. 357-8. Ceir rhestr Gymraeg o'r Saith Weithred yn Syr Siôn Prys, *Yny lhyvyr hwnn* ([London]: Edward Whitchurch, 1546), t. [32].

161 Llsg. Christ Church 184, ffol. 181v.

162 Nodir dyddiad yr angladd ym mhenawdau marwnadau Saesneg Robert Parry a Robert Salusbury, *ibid.*, ffols 181r, 183r.

katrin dec'.¹⁶³ Fe geir cryn dipyn o sôn am yr angladd yn y marwnadau. Fe sonia Simwnt Fychan fel y cludwyd Catrin o Blas-y-Ward yn Llanynys i Lanefydd: 'o lan ynys velys wawl | i lann vfudd le nefawl | Vry i n wynn dy vair wenn dwyn | iw gwyddfa y wraic addwyn.'¹⁶⁴ Fe all iddi gael ei chludo i'w hen gartref ym Merain ar gyfer gwylnos cyn yr angladd: ar ôl sôn am ei marw ym Mhlas-y-Ward, fe ddywed Huw Machno amdani, 'Ai chario em wych evrwedd | i ferain lys fawr iawn wledd,'¹⁶⁵ tra sonia Robert Ifan yntau 'Oi harwain i ferain fawr | trwy alaeth yn troi elaw.'¹⁶⁶ Fe ellir amgyffred peth o awyrgylch yr angladd, gyda'r galarwyr lluosog o bob gradd, yn nisgrifiadau'r beirdd. Meddai Simwnt Fychan:

kwyn oedd anap kan ddyinion
kwyn blwng wrth gynhebrwng hon . . .
Tenantiaid trvaniaid draw
tylwyth doeth armynt wylaw
pob nai pob nith chwith fv.r. chwedl
pybyr gwyn pawb or genedl¹⁶⁷

Sonia Robert Ifan fel y gosodwyd baneri yn arddangos arfbeisiau teuluol uwchben y bedd, yn benodol arfbais Heilyn Frych, hynafiad Catrin o du ei thad, ac un Syr Roland Filfel, ei thaid o du ei mam (mae'n amlwg yr ystyrir Syr Roland yn hynafiad pwysig; fe grybwyllir cysylltiad Catrin ag ef ym mhob un o'r wyth farwnad Gymraeg). Yr oedd arddangos arfau fel hyn yn rhan o ddefod a phasiantri angladdau bonheddig yn y cyfnod.¹⁶⁸ Meddai'r bardd:

Arfav oedd hwnt ar fedd hael
fawlvaeth heilin a felvael
manerav gynau a gad
Ackw yn arwyl kwyn irad . . .¹⁶⁹

Ac fe aiff yntau ymlaen i nodi lluosowgrwydd ac amrywiaeth y galarwyr, cyn gorffen ei gywydd yn ffyddiog ynghylch tynged enaid y wraig ddaionus a goffai:

kwyn brodvr kefindyr kof aeth
pob keraint neiaint nawaeth

163 Ibid., ffol. 201r. coeten = ?cylch fflat o garreg. Ar y duedd i gladdu pobl uchel eu statws o fewn eglwysi gw. Clare Gittings, *Death, Burial and the Individual in Early Modern England* (London and Sydney: Croom Helm, 1984), t. 141; David Cressy, *Birth, Marriage and Death: Ritual, Religion, and the Life-Cycle in Tudor and Stuart England*, arg. clawr papur (Oxford: Oxford University Press, 1999), tt. 460-5.

164 Llsg. Christ Church 184, ffol. 188v.

165 Ibid., ffol. 193r.

166 Ibid., ffol. 199r.

167 Ibid., ffol. 188.

168 Gittings, *Death, Burial and the Individual*, tt. 166-187; Cressy, *Birth, Marriage and Death*, tt. 450-1.

169 Llsg. Christ Church 184, ffol. 199r.

yw gweision oer foddion fv
 tenantiaid pawb dan vntv
 Kymydogion kaen devgant
 karessav kwynae nawn kant¹⁷⁰
 Gwae haid o weiniaid Wynedd
 gwae y llv byth gar llaw i bedd . . .
 Ni wyr a roes yw hoes honn
 o ddaioni i ddyinion
 koffav.n.rhwydd kaffo.n.i rhaid
 yr ynnill bvr ir enaid¹⁷¹

Dyma fan priodol imi ffarwelio â Chatrin. Fel yr awgrymais ar y dechrau, dyma wraig a adawodd ei hôl ar ddychymyg y Cymry. Fe gydoesai, wrth gwrs, â gwraig arall y canwyd ei chlodydd mewn cerddi dirifedi gan feirdd ei hoes, y frenhines Elisabeth.¹⁷² Tybed a ddylid gofyn ai rhyw fath o adlewyrchiad o fri y ‘Gloriana’ Seisnig – ei pherthynas drwy waed efallai – fu bri ac enwogrwydd Catrin yn ei hoes ei hun ac wedi hynny? Ai cael gwraig yn teyrnasu’n llwyddiannus a’i mawrygu’n helaeth a arweiniodd rywfodd at fawrygu gwraig arall yma yng Nghymru? Ai’r gwawl a amgylchynai Elisabeth a fwriodd hefyd ei belydrau ar Gatrin a pheri ei llifoleuo hithau? Fe atebwn i ‘na’ go bendant. Yr oedd Catrin yn wraig go arbennig yn ei hawl ei hunan, yn un yr awgryma troeon digon helbulus ei bywyd ei bod yn meddu ar bersonoliaeth wydn a’r gallu i oroesi, a chanddi gymeriad a enynnodd edmygedd a pharch cynnes iawn y rhai a’i hadnabu a barnu yn ôl brwdfrydedd amlwg teyrngedau’r beirdd iddi. Os bu gan Loegr ei Gloriana, ymfalchïwn ninnau y bu gan Gymru ei Chatrin. Derbyniad hyn o druth – a gyfyngwyd i un wedd ar ei hanes hi a’i thylwyth – fel cyfraniad bychan tuag at ddathlu ac estyn ymhellach eto y cof am y Gymraes dra diddorol hon.

[SUMMARY]

‘Catrin of the gilded vibrant dynasty’: Catrin of Berain
and her Ancestors and the Poets

This paper was delivered as the Sir T. H. Parry-Williams Memorial Lecture at the National Eisteddfod, Wrexham, on 1 August 2011. The subject of the lecture is Catrin of Berain, an heiress from a prominent north Welsh family who was married four times and played a part in the history of her age. Modern interest in Catrin

170 Darllener ‘naw kant’.

171 Llsg. Christ Church 184, ffol. 199.

172 Gw., e.e., M. C. Bradbrook, *The Queen’s Garland* (London & New York: The Royal Society of Literature, 1953); Elkin Calhoun Wilson, *England’s Eliza*, Harvard Studies in English, 20 (London: Frank Cass, 1966). Ar gerddi Cymraeg i Elisabeth gw. Gruffydd Aled Williams, ‘Beirdd Cymru a’r Goron’, *Cof Cenedl*, 15 (2000), 29–67 (tt. 38–46).

includes several novels, a recent radio play, newspaper articles, and a 'Facebook' page.

Catrin was born in 1534 or 1535 to Tudur ap Robert of Berain, Llanefydd, and his first wife, Siân, daughter of Sir Roland Veleville, constable of Beaumaris castle. On her father's side she was descended from a line of leading gentry in the region of Is Aled. According to the poet, Lewys Dwnn, her genealogy could be traced back, via a number of illustrious ancestors, to Brutus of Troy, the mythological founder of the Welsh nation. Wiliam Cynwal, another poet, ends his genealogy of Catrin's ancestors with the formula: 'son of Enoch son of Seth son of Adam son of God'.

The article refers to the debate among modern historians regarding the paternity of Catrin's father, Sir Roland, who was reputed to be the son either of the Duke of Brittany or of Henry Tudor. A number of poets refer to the 'royal line' of Catrin's son, Sir John Salusbury of Lleweni, by her first husband John Salusbury, which suggests a belief among the poets that Catrin was descended from Henry VII and was therefore a close relative of Elizabeth I (first cousin once removed).

Catrin's second husband was Richard Clough, a wealthy merchant who took her to live in some of the major trading cities of northern Europe including Antwerp and Hamburg. Following Clough's death, Catrin married Morris Wynn, a squire of Gwydir, Llanrhwt, early in 1573. Catrin had two children with each of these three husbands; for her fourth and final marriage she became the second wife of Edward Thelwall of Plas-y-Ward, Llanynys. Catrin's oldest son, Thomas Salusbury, was executed as a Catholic traitor by Elizabeth I. Five years later, in 1591, Catrin died at Plas-y-Ward and she was the subject of many elegies by the major poets of the day, who pointedly refrained from any mention of Thomas.

The article refers particularly to an Oxford manuscript (Christ Church College 184) written by the poet Wiliam Cynwal in 1570 as a 'court book' commissioned by Catrin after the death of her second husband, Richard Clough. The manuscript contains praise poems, elegies, genealogies and coats of arms for Catrin and her ancestors, including poems written by a number of bards from earlier generations. Though the contents of the manuscript are mainly in Welsh, some of the poems are in English or Latin, and Catrin's son John Salusbury, who belonged to the same literary circles as Ben Jonson and Shakespeare, himself composed some poems for the book. It has been argued that Jonson and Shakespeare may also have contributed.

The article quotes from many poems which were written in praise of Catrin and her family over several generations, and makes the point that the family were major patrons of some of the most famous bards of the sixteenth century, including Wiliam Llŷn, Siôn Tudur, Lewys ap Edward, Simwnt Fychan, and, in particular, Wiliam Cynwal.